



Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Abi Reader

Ymchwilio i waredu BVD a Bioddiogelwch

Yr Almaen, Rhanbarth Bafaria

Mai 2018

Prif Gyswllt: Yr Athro Klaus Doll, Clinig Cilgnowyr, Cyfadran Meddygaeth
Filfeddygol, Prifysgol Giessen

Amserlen yr ymweliad:

Diwrnod 1) Cyrraedd Munich, teithio i Wurzburg, yn agos i'r fferm y byddwn yn ymweld â hi'r diwrnod canlynol

Diwrnod 2) Ymweld â Mr Schneider, Grundau, buches o fuchod godro - 650

Diwrnod 3) Ymweld â'r Clinig Cilgnowyr, Prifysgol Giessen

Ymweld â Diehl-Schlosser, Grunberg, buches o fuchod godro - 250

Diwrnod 4) Cyfarfod Dr Malte Loholter, Boehringer Ingelheim, Frankfurt, i drafod brechu
Teithio'n ôl i Munich

Diwrnod 5) Cyfarfod Dr Ingrid Lorenz, Labordy Iechyd Anifeiliaid Bafaria i drafod cynlluniau i reoli BVD

Ffotograffau ac erthygl i'r wasg ynghlwm ar ddiwedd yr adroddiad.

Canfyddiadau'r daith:

Rhaglen BVD yr Almaen

Yn hanesyddol, mae gan yr Almaen enw da am waredu clefydau ac mae'r wlad eisoes wedi gwaredu TB ac IBR. Mae hyn yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i drechu clefydau eraill. Unwaith y bydd wedi gwaredu BVD, bydd yn symud ymlaen i Johnes ac mae cynlluniau'n cael eu paratoi'n barod.

Dechreuwyd y rhaglen BVD yn 2011 yn dilyn cynnydd sydyn yn y clefyd ar ffermydd. Dangosodd profion tanciau fod 80% o ffermydd yn serobositif ar gyfer y clefyd erbyn 2010

(h.y. roedd yr anifeiliaid ar ryw bwynt wedi bod mewn cysylltiad â'r clefyd), sy'n ganran uchel iawn.

Fel rhan o'r cynllun rhaid i loi sy'n cael eu geni o 2011 ymlaen gael eu tagio a'u profi. Mae'r rhaglen yn rhaglen wladol, gydag ychydig dros ei hanner yn cael ei hariannu gan y llywodraeth (tua 3 ewro/pen) ac ychydig llai gan ffermwyr, er y gellid dadlau y byddai'n rhaid i ffermwyr dalu pris tag arferol. Mae ffermwyr yn talu trwy ardoll orfodol i gronfa 'yswiriant'. Yna mae'r gronfa hon yn talu am y tag a'r prawf a gall ffermwyr ddewis pa dagiau y maent am eu defnyddio. Nid oes unrhyw fonopoli gan mai 3 chyflenwr yn unig sydd ar gael. Gall tagiau gael eu profi gan PCR (mwy sensitif) neu ELISA. Mae pob lloi'n cael prawf dwbl h.y. cymerir sampl o feinwe ar y ddau dag. Gwneir hyn rhag ofn nad yw'r sampl cyntaf yn gywir ac mae'n arbed amser yn ail wneud y prawf.

Yn 2011, cafodd bob llo a gafodd eu geni eu profi ac roedd 2% o'r rhain yn rhai wedi'u heintio'n barhaus (PIs) (tua 8000 o loi). Yn 2018, mae'r nifer hwn wedi gostwng i 81 o loi. Yn 2016, fe'i gwnaed yn orfodol yn yr Almaen i dagio lloi meirw.

Bellach mae'r Cynllun Yswiriant Anifeiliaid yn ystyried bod y gronfa'n gostus gan fod nifer yr achosion o'r clefyd mor isel nes bod y gost fesul achos positif o'r clefyd yn hynod o uchel erbyn hyn. Felly, mae ymgyrch i roi terfyn ar y cynllun tag a phrawf a newid y drefn monitro 5 gwaed, yn debyg i Gymru. Mae rhai academyddion yn amharod i newid gan eu bod yn credu nad yw'r system hon yn ddigon cadarn i gynnal y lefel isel o achosion o'r clefyd. Credir yn gyffredinol mai'r cynllun tag a phrawf yw'r ffordd orau a chyflymaf o gadw'r fuches yn rhydd rhag BVD. Fodd bynnag, un gwendid sy'n perthyn i'r cynllun tag a phrawf yw nad yw popeth yn cael ei brofi'r un diwrnod felly mae siawns y gallai haint dros dro ledaenu hyd yn oed os deuir o hyd i achos PI.

Bioddiogelwch

Brechu

Credir bod brechu'n bwysig iawn i ymladd y frwydr yn erbyn BVD. Yn yr Almaen, milfeddygon sy'n brechu'r anifeiliaid oherwydd eu bod yn credu bod hyn yn lleihau'r siawns o gamgymeriadau gan bobl yn ystod proses frechu. Mae brechu'n helpu i fynd i'r afael â'r brif broblem oherwydd unwaith yr ydych wedi dileu'r achosion PI daw'r buchesi'n seronegatif ac felly'n fwy agored i haint. Felly, rhaid naill ai eu brechu neu gael trefn fioggiogelwch dynn. Mae problemau'n codi pan ydych yn rhoi'r gorau i frechu. Yn aml rhoddir y gorau i frechu oherwydd bod y busnes ffermio'n teimlo nad oes bygythiad mwyach. Yn aml y rheswm nad yw'n fygythiad mwyach yw oherwydd eu bod yn brechu, ond caiff hyn ei ddiystyru.

Heriau o ran Symudiadau Anifeiliaid

Mae 16 o ranbarthau yn yr Almaen. Nid yw'r rhain yn ffurfio ynys, yn hytrach maent yn ffinio â gwahanol wledydd ar wahanol ochrau sy'n golygu ei bod yn her cadw'r clefyd draw. Mae tua 100,000 o wartheg yn teithio trwy'r Almaen, yn bennaf o Dwrci.

Heriau o ran Pobl ar ffermydd

Nid oes llawer o bryder y bydd y cyhoedd mewn perygl oherwydd y clefyd gan eu bod yn hynod o annhebygol o ddod i gysylltiad â'r haint mewn ffynhonnell allanol. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n dod i ffermydd o ffermydd eraill yn risg, yn arbennig milfeddygon gan mai nhw sy'n dod i gysylltiad fwyaf â'r stoc. Dyfynnwyd un enghraifft lle rhwbiodd milfeddyg ei lawes yn erbyn trwyn lloi PI, yna gwnaeth brawf ar y llawes a chanfuwyd bod y firws yn bresennol. Dylid darparu oferôls i bobl sy'n dod i ffermydd o ffermydd eraill. Ystyrir bod diheintydd yn aneffeithlon.

Mesurau eraill:

- Mae'r holl brofion meinwe'n orfodol o fewn un mis ar ôl geni.
- Ni roddir pasbort i anifail PI ac mae difa yn syth yn orfodol.
- Mae unrhyw fuchesi lle mae anifeiliaid PI yn bresennol yn cael eu gosod dan waharddiad symud am 40 diwrnod neu os oes buchod cyflo'n bresennol rhaid i'r fuwch(buchod) eni'r lloi a rhaid i'w llo fod yn rhydd o'r clefyd oni bai bod y fuches wedi'i brechu a bod y profion yn serobositif ar ôl y 150^{fed} diwrnod o feichiogrwydd.

Er gwaethaf hyn i gyd, mae achosion o BVD yn dal i ymddangos ar ffermydd heb anifeiliaid PI o ganlyniad i gysylltiad â phobl neu anifeiliaid a dyna pam fod bioddiogelwch mor bwysig yn ogystal ag unrhyw raglen ddileu BVD.

Rhai o'r problemau a ganfuwyd ar ffermydd

- Mae cyfnod ynysu ar ôl canfod anifail PI yn gallu bod yn anodd gan nad oes gan nifer o ffermydd ddigon o siediau na'r capasiti i ofalu amdanynt ar wahân.
- Nid yw rhai ffermwyr yn deall effaith BVD ac yn aml maent yn drysu rhwng BVD ac IBR gan fod y llythrennau'n debyg yn eu hiaith.
- Yr unig ymwelwyr y dylid bod yn wyliadwrus ohonynt yw'r rhai sy'n mynd o fferm i fferm – milfeddygon, technegwyr AI, cymdogion, cynrychiolwyr cwmnïau porthiant ac eraill.

Lab iechyd Anifeiliaid Bafaria

Pa fath o labordy yw hwn?

Mae'n labordy preifat, annibynnol, dielw. Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid drwy grantiau. Y labordy hwn wnaeth 80% o'r profion tag a phrawf BVD ar y cychwyn oherwydd bod ganddynt ddiddordeb pam fod ffermwyr yn dewis un labordy dros y llall. Darganfu fod ffermwyr yn awyddus i osgoi gwaith papur beichus a llenwi a phostio amlenni. Yn sgil y canfyddiadau hyn, gweithiodd y labordy gyda dau gwmni tagio i ddatblygu pecyn labelu nad oedd angen gwaith papur yn ogystal â darparu amlenni rhagdaledig. Hefyd gweithiodd i newid y gyfraith fel bod modd i'r lori laeth godi'r samplau tag a phrawf, oedd yn golygu y gellid casglu'r samplau'n ddyddiol gan arwain at drosiant uwch o ran samplau a chanfod achosion PI posibl yn gynt. Mae'r ddau gwmni tagio gwahanol yn defnyddio offer profi gwahanol. Gwnaeth y labordy

hwn yn siŵr fod y ddwy set o offer yn eu lle. Mae'r prawf tag a phrawf yn cymryd dau sampl o'r glust rhag ofn i un fynd ar goll.

Prif neges: Rhaid i wlad gael un dull cyffredin i ymdrin â chlefyd.

Cludo Anifeiliaid a Lledaenu Clefydau

Er gwaith archwiliadau ar y ffin, symudiadau anifeiliaid yw'r bygythiad mwyaf i glefyd. Mae'r Almaen yn dod o dan erthygl 10 iechyd anifeiliaid ar gyfer TB ac IBR - h.y. mae wedi'i datgan yn rhydd o'r clefyd. Mae hyn yn caniatáu i'r wlad osod rhwystrau masnach di-dariff i atal anifeiliaid eraill a allai roi'r statws hwn mewn risg. Mae BVD yn yr Almaen ar statws Erthygl 9 - h.y. bod y llywodraeth yn gweithredu i reoli'r clefyd ond nad yw eto'n rhydd rhagddo. Mae'n debygol y bydd yr Almaen yn symud ymlaen i Johnes unwaith y bydd BVD dan reolaeth.

Er gwaethaf statws erthygl 10 ar gyfer IBR, mae ychydig o achosion wedi bod yn yr Almaen yn 2017 ac yn 2018. Cysylltwyd yr achos cyntaf ag anifeiliaid oedd wedi'u mewnfario o Awstria sydd hefyd wedi'i datgan yn rhydd rhag IBR o dan erthygl 10. Roedd yr ail achos yn sgil anifeiliaid oedd wedi'u mewnfario o'r Alban oedd wedi'u profi'n flaenorol yn rhydd o IBR.

Mae ffermwyr yn ystyried bod bioddiogelwch yn waith caled ond ni ddylent ddiystyru gwerth darparu oferôls ar ffermydd. Er gwaethaf hyn, yn ystod y ddau ymweliad â ffermydd ni chynigiodd y ffermwr dan sylw oferôls. Mae 'diffyg cysylltiad' rhwng yr hyn y mae milfeddygon a ffermwyr yn ei ddeall.

Prif gasgliadau:

- Wnewch chi byth waredu'r clefyd yn llwyr ond dylai ei gadw ar lefel isel e.e. 80% neu fwy heb y clefyd, fod yn ddigonol i'w gadw draw cyn belled bod system barhaus sy'n monitro'r clefyd yn rheolaidd a mesurau rheoli yn eu lle.
- Yr unig ffordd mae'n bosibl digwarduleu clefyd yw trwy ddull gwlad gyfan. Yn ddelfrydol, mae angen i bawb (gwahanol ranbarthau) ddilyn yr un dull er mwyn dileu'r clefyd yn gynt.
- Rhaid i'r broses o reoli clefyd gynnwys brechu.
- Mae cyflymder yn hanfodol - mae mynd i ffermydd yn gyflym a thynnu achosion PI oddi yno yn lleihau'n fawr y risg o ledaenu pellach. Yn ddelfrydol, dylai lloï gael ei ganfod a'i symud mewn 14 diwrnod neu lai.
- Mae ffermwyr yn annhebygol o wirfoddoli i wneud llawer o waith i reoli clefyd oni bai ei bod yn broblem benodol ar eu ffermydd. Y rheswm yn bennaf am hyn yw mai busnesau yw ffermydd ac yn aml mae'n anodd cyfrifo cost a budd dileu bob clefyd.
- Ni ddylid diystyru bioddiogelwch. Dylai pob fferm ddarparu esgidiau ac oferôls i ymwelwyr sy'n dod o ffermydd eraill i leihau'r posibilrwydd o gyflwyno haint newydd.
- Ni ddylai'r gost ar gyfer dileu fod yn uwch na'r gost ar gyfer y clefyd.
- Symudiadau anifeiliaid yw'r bygythiad mwyaf o ran lledaenu'r clefyd. Pobl yw'r ail fygythiad pennaf.

- Gall gwlad sy'n gallu sicrhau ei bod yn rhydd o'r clefyd yn swyddogol sefydlu rhwystrau di-dariff i'w diogelu ei hun.
- Yn yr Almaen, pwrpas y rhaglen i waredu BVD oedd profi anifeiliaid PI a'u difa rhag i'r clefyd ledaenu. Fodd bynnag, mae'n dal yn bosibl lledaenu BVD heb anifail PI felly mae protocolau profi a gwaredu o fudd gwirioneddol ar yr amod bod mesurau bioddiogelwch yn cael eu gweithredu fel mesurau wrth gefn.
- Nid milfeddygon yw ffermwyr, ond rheolwyr anifeiliaid a phobl fusnes. Nid oes ganddynt y cefndir gwyddonol a chaiff hyn ei ddiystyru a'i danwerthfawrogi pan fo 'arbenigwyr' yn trafod rheoli a gwaredu clefydau. Mae gormod o arbenigwyr yn trafod clefydau ar lefel wahanol i arbenigwyr fferm. Rhaid cau'r bwlch hwn.

Deilliannau:

Fydda i'n gwneud newidiadau ar fy fferm o ganlyniad i'r hyn yr wyf wedi'i weld? Ac os felly, beth?

Byddaf. Mi fydda i'n sefydlu mesurau bioddiogelwch sylfaenol i ddiogelu'r fferm rhag unrhyw siawns o gyflwyno clefyd i'r fferm gan bobl, yn cynnwys prynu welis ac oferôls o wahanol feintiau ar gyfer ymwelwyr. Byddaf hefyd yn edrych yn ofalus ar brotocolau brechu ar gyfer pob clefyd ac yn ystyried a yw'r rhain yn cael eu gweithredu'n briodol i leihau'r siawns na fydd y brechiad yn gweithio.

Sut alla i wneud cyfraniad at y diwydiant amaeth yng Nghymru o ran yr hyn yr wyf wedi'i ddysgu?

- 1) Rhannu fy adroddiad gydag unrhyw un sydd â diddordeb
- 2) Siarad gyda grwpiau ffermwyr am y daith
- 3) Defnyddio fy aelodaeth o grwpiau niferus i ledaenu'r wybodaeth am fy nghanfyddiadau, e.. aelod o Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, Cadeirydd CHeCS, ac Is-gadeirydd Bwrdd Llaeth NFU Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwahodd Dr Ingrid Lorenz i'r Deyrnas Unedig i drafod ymhellach sut i reoli'r clefyd gyda phartion â diddordeb a threfnu sgysiau gyda Boeringher Ingleheim a MSD (dau gwmni gweithgynhyrchu brechiad BVD) yn y Deyrnas Unedig.
- 4) Cyfrannu at Raglen Gwaredu BVD

Syniadau pellach am y Rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth:

Mae'n anodd iawn trefnu taith i wlad arall heb unigolion cyswllt priodol. Mae hyd yn oed yn anos pan mae iaith arall yn cael ei siarad. Ond mae'n syndod faint o bobl sy'n fodlon helpu, ond i chi chwilio am y bobl hynny.

Mae neilltuo amser i ffwrdd o'r busnes teuluol, yn arbennig os ydych yn rhan bwysig ohono, yn gallu rhoi pwysau mawr ar bawb. Dylech o leiaf gael yswiriant rhag ofn i bethau gael eu

canslo'r funud olaf. Meddyliwch yn ofalus pryd y byddwch yn mynd er mwyn osgoi cyfnodau prysur ond cofiwch fod y tywydd yn gallu newid a drysu'r cynlluniau gorau. Gwnewch yn siŵr fod pawb yn eich tîm yn gwybod yn gynnar iawn eich bod yn mynd ar daith er mwyn sefydlu protocolau os bydd yr amseru'n achosi problemau.

Waeth beth ydych chi'n feddwl y byddwch chi'n ei ddysgu, byddwch yn dysgu cymaint mwy ac yn gwneud cyfeillion newydd yr un pryd.

Lluniau:

Llun 1: Ymweliad Cyntaf â Fferm Laeth. Ar y chwith: Mr Schneider, Yr Athro Doll, Abi Reader, Cynrychiolydd Cynllun Yswiriant Clefydau Anifeiliaid



Llun 2: Ail Ymweliad â Fferm Laeth. Ar y chwith: Mr a Mrs Schlosser-Diehl, Abi Reader, Yr Athro Doll, Dr Loholter



Llun 3: Dr Loholter ac Abi Reader, Boeringher Ingelheim



Llun 4: Labordy Iechyd Anifeiliaid Bafaria



Erthygl Gwasg Grunberg (cyfieithwyd yn flaenorol)

Er budd buchod

Ymweliad: Ffermwr o Gymru'n cyflwyno gwybodaeth i fferm laeth Grünberger / siarad am raglen gwrthfeirysol

Gan Emanuel Zylla

Pan dderbyniodd Abi Reader, ffermwr llaeth o Wenfo yng Nghymru'r teitl 'Ffermwraig y flwyddyn' yn 2016, meddai'n wylaidd wrth y BBC: "Pan ydych chi'n gwneud y pethau wnes i, dydych chi ddim yn disgwyl cael gwobr. Roeddwn eisiau gwneud rhywbeth ym maes amaethyddiaeth." Daeth ffermwr o Gymru, sy'n teimlo'n angerddol dros les anifeiliaid a'i phroffesiwn, ac sy'n awyddus i gael mwy o wybodaeth, ar ymweliad â ffermydd llaeth yn yr Almaen - busnes teuluol Diehl a Schlosser yn Grünberg. Derbyniodd wahoddiad gan Klaus Doll, milfeddyg o Brifysgol Justus Liebig sy'n arbenigo mewn clefydau cilgnowyr. Roedd gan Abi Reader ddiddordeb arbennig yn arferion yr Almaen i ddelio â firws BVD. Gan i Doll ddarlithio ar y testun yn Lloegr yn ddiweddar, cysylltodd ag ef.

Mae'r clefyd yn un o'r heintiau mwyaf mewn gwartheg. O ganlyniad, yn ogystal â'r ffaith bod yr anifeiliaid yn dioddef, mae hefyd yn achosi niwed economaidd sylweddol i ffermydd. "Mae gennym raglen reoli genedlaethol yn ei lle ers Ionawr 2011," meddai Doll wrth sgwrsio yn Upper Ziegelhütte, cartref teulu Schlosser a Diehl. "Caiff y buchod eu harchwilio'n syth ar ôl y firws hwn wrth greu eu tagiau clust dwy flynedd. Rhaid i holl loi yn yr Almaen gael archwiliad addas," medd yr athro gan ddisgrifio'r protocolau. Wrth osod y tag, mae'r meinwe'n cael ei anfon i labordy i'w brofi. "I ni ffermwyr, nid yw'n waith ychwanegol, oherwydd bod yn rhaid tagio'r lloi yn y saith diwrnod cyntaf prun bynnag," ychwanegodd Melanie Schlosser-Diehl. Arweiniodd y posibilrwydd o ganfod y firws yn gynnar yn y pen draw at ostyngiad yng nghyfraddau marwolaeth yn yr Almaen. Fodd bynnag, mae tua chwe achos o BVD yn dal i

ydddangos bob mis. Wrth deithio drwy'r fferm, cafodd Abi Reader olwg ar fersiwn yr Almaen o'r rhaglen reoli. Hefyd pwysleisiodd Doll bod "gwahanol wledydd yn cwrdd". Ym Mhrydain, byddai'n rhaid darbwylo ffermwyr ynglŷn â rhaglen reoli a thrafod ymlaen llaw gyda'r holl fudd-ddeiliaid, gyda ni, yn syml, mae'n cael ei benderfynu a'i weithredu a rhaid i bawb gadw ato. Efallai bod hyn yn egluro pam fod y broses yn hirach ym Mhrydain, er bod y rhaglen eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar fridio buchod llaeth. Rhaid disgwyl i weld os gall Abi Reader, gyda'r wybodaeth newydd hon, sicrhau newid ym Mhrydain.